# Diwrnod Cofnodwyr Cofnod

a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol **26/11/2011**

Agorodd **Les Starling**, Cadeirydd Cofnod, y gweithgareddau gyda chroeso cyffredinol i bawb a oedd yn bresennol yn yr achlysur. Diolchwyd hefyd i bawb a oedd wedi cefnogi gweithgareddau Cofnod drwy gydol y flwyddyn.



Cyflwynwyd darlith gyntaf y diwrnod gan Dr Rachel Taylor o Ymddiriedolaeth Adareg Prydain (YAP). Teitl sgwrs Rachel oedd *Dod ag YAP yn nes at Gymru*, a manteisiodd ar y cyfle i gyflwyno gweithgareddau ac amcanion YAP, gan dynnu sylw at ffocws y sefydliad ar ymchwil a bod yn ddiduedd. Cawsom wybod hefyd bod swyddfa newydd wedi cael ei sefydlu gan YAP yn Adeilad Thoday Prifysgol Bangor a bod dau aelod o staff yn gweithio yno yn awr: Rachel ei hun fel Ecolegydd a Kelvin Jones fel Swyddog Datblygu.

Cafwyd ail gyflwyniad y dydd gan **Brian Burnett** – *Darganfod ein planhigion llai adnabyddus.* Dangosodd Brian esiamplau byw o sawl rhywogaeth gyffredin o fwsoglau yn ystod ei sgwrs, gan bwysleisio rhai o'r anawsterau i ddechreuwyr yn y grŵp hwn. Cafwyd trafodaeth fywiog wedyn gyda sawl barn yn cael ei chyflwyno ar rinweddau allweddi bryoffytau a gwaith adnabod amrywiol! Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i grŵp sydd wedi'i sefydlu'n ddiweddar, sef *Grŵp Planhigion Heb Flodau Gogledd Cymru*, ac anogwyd y rhai oedd â diddordeb i fynychu eu cyfarfodydd maes fel cyfrwng i ddysgu mwy am y rhywogaethau hyn o blanhigion.

Daeth **Richard Gallon** i'r llawr i dynnu sylw at wyth rhywogaeth ddiddorol o bryfed cop y dylai pobl gadw llygad amdanynt. Roedd y rhain yn cynnwys y pryf cop gwenyn, *Argiope bruennichi.* Nid yw hwn wedi'i gofnodi yng Ngogledd Cymru eto ond mae'n debygol o ddod yn rhan o'r ffawna yma ymhen ychydig flynyddoedd. Mae taflen gryno wedi'i darparu i atgoffa pobl o'r angen am gofnodion o'r pryfed cop hyn.



Wedi egwyl fer am baned, disgrifiodd Ceri Morris (Swyddog Prosiect MISE, CCGC) rywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y cyd rhwng Cymru ac Iwerddon mewn perthynas â phoblogaethau o famaliaid. Cyflwynwyd gwaith ar famaliaid eiconig, fel Bele'r Coed, y Ffwlbart, y Wiwer Goch a Llygoden yr Ŷd, a dywedwyd sut mae dadansoddiadau DNA o samplau o dail a blew yn darparu gwybodaeth newydd am eu hecoleg a'u poblogaethau. Gwnaeth Ceri apêl ar i beledi'r Dylluan Wen gael eu hanfon ati; gellid dadansoddi'r rhain (gan ddefnyddio technegau cyfresu DNA) er mwyn chwilio am bresenoldeb gweddillion llygod yr ŷd.




Cyflwynodd **Roy Tapping**, rheolwr Cofnod, yr wybodaeth ddiweddaraf am rai o'r prosiectau a'r datblygiadau yr oedd Cofnod wedi ymgymryd â hwy yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Hefyd trafododd sut roedd llwyddiant yn cael ei fesur, gan nodi mai nid dim ond mewn ffigurau caled yr oedd yn cael ei fesur, ond hefyd mewn ffactorau llai diriaethol fel ymddiriedaeth, ymwybyddiaeth a hyder.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar ôl y bwffe—bydd y cofnodion ar gael o'r Wefan Cofnod, www.cofnod.org.uk.

Cyflwynodd **Aisling Carrick** (Rheolwr Data Cofnod) sgwrs yn dwyn y teitl *Y data sydd gennym ni a sut rydym ni'n rheoli llif data.* Yn y sgwrs crynhodd nid yn unig nifer y cofnodion a geir ym mhob grŵp tacsonomig ond hefyd y bylchau yn yr hyn sydd ar gadw. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd System Cofnodion Ar-Lein (SCA) Cofnod a'r defnydd ohoni gan is gofnodwyr sirol er mwyn dilysu cofnodion.

Yn dilyn sgwrs Aisling, cyflwynodd **Mick Brummage** (Cofnodwr Ymlusgiaid Gogledd Ddwyrain Cymru) sgwrs yn dangos ei ddefnydd o'r SCA er mwyn cofnodi Madfall y Tywod. Dangosodd Mick werth cyfleuster mapio'r SCA er mwyn cofnodi ymlediad y medfyll o'r ddau safle trawsleoli mewn dwy boblogaeth sydd wedi'u hailgyflwyno yng Ngogledd Cymru. Hefyd eglurodd sut mae nawr yn cadw ei holl ddata am ymlusgiaid yn y SCA, gan ddweud bod hyn wedi symleiddio ei waith yn rheoli'r data.

Teitl ail sgwrs Roy ar y diwrnod oedd *Sut mae eich data chi'n cael ei ddefnyddio.* Dangosodd i bawb a oedd yn bresennol y gwahanol bethau a gynhyrchir gan Cofnod, gan gynnwys adroddiadau Rhestr Gynllunio, allbwn GIS, adroddiadau masnachol a chynnyrch teilwredig. Eglurodd Roy sut roedd bas data Cofnod yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer prosiectau allanol amrywiol: Cynlluniau Datblygu Lleol; Adolygiadau Caniatâd; Cynlluniau AHNE; CGBLlau ac ati. Crybwyllwyd rhagor o ddatblygiadau a rhoddwyd pwyslais ar natur esblygol cynnyrch a gwasanaethau Cofnod.

Fel rhan o sgwrs olaf y dydd, trafododd Aisling sawl gwelliant technegol amrywiol i systemau Cofnod. Crybwyllodd ddatblygiad gwiriwr data awtomatig a fyddai'n helpu gyda chanfod unrhyw broblemau gyda'r data, a thrwy hynny wella safon y data ledled y system. Awgrymwyd hefyd y bydd cyflenwyr data'r dyfodol yn gallu llwytho taenlenni o gofnodion yn uniongyrchol i fas data Cofnod efallai. Cyflwynwyd y posibilrwydd o raglen gofnodi symudol ar gyfer ffonau clyfar a gellid cysylltu hon â rhaglenni adnabod sy'n bodoli eisoes. Byddai Aisling yn croesawu syniadau ar gyfer y rhain ac ar gyfer meysydd datblygu eraill.

Daeth Les Starling â'r diwrnod i ben drwy grynhoi'r digwyddiadau a thrwy ddiolch i'r siaradwyr amrywiol. Roedd y diwrnod wedi bod yn gyfle rhagorol i gyfarfod cyd-gofnodwyr a chyfnewid syniadau.

## Manylion Cyswllt y Siaradwyr

**Dr Rachel Taylor**
Ymddiriedolaeth Adareg Prydain
Adeilad Thoday
Ffordd Deiniol
Bangor
Gwynedd
LL57 2UW
Ffôn: 01248 383285
rachel.taylor@bto.org

**Brian Burnett**
indesigneko@aol.com

**Richard Gallon**
**Roy Tapping**
**Aisling Carrick**
Cofnod, Intec
Ffordd y Parc
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4FG
Ffôn: 01248 672603
richard.gallon@cofnod.org.uk
roy.tapping@cofnod.org.uk
aisling.carrick@cofnod.org.uk

**Ceri Morris**
Mamaliaid mewn Amgylchedd Cynaliadwy (MMAC)
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Plas Penrhos
Ffordd Penrhos
Bangor
Gwynedd
LL57 2BX
c.morris@ccw.gov.uk

**Mick Brummage**
Ffôn: 01352 741459
mick.brummage@tiscali.co.uk

# Ydych chi wedi gweld y pryfed cop hyn yng Ngogledd Cymru?



***Atypus affinis***
**Eichwald, 1830**

Chwiliwch am diwbiau sidan ar lethrau o laswellt byr sy'n wynebu tua'r de.



***Argiope bruennichi***
**(Scopoli, 1772)**

Chwiliwch amdano mewn gweoedd cylch sydd wedi'u creu yn isel i lawr mewn glaswelltir garw (hydref).



***Misumena vatia***
**(Clerck, 1757)**

Mae'n eistedd ar flodau – cadwch lygad am löynnod byw sydd ddim yn hedfan oddi ar flodau!



***Micrommata virescens***
**(Clerck, 1757)**

Mewn llennyrch mewn coetiroedd derw – nid yw'n creu gwe.



***Meta menardi***
**(Latreille, 1804)**

Chwiliwch mewn ogofâu, draeniau a mannau llaith a thywyll eraill.



***Scytodes thoracica***
**(Latreille, 1802)**

Chwiliwch amdano'n cerdded o gwmpas ar waliau tai yn ystod y nos.



***Dolomedes fimbriatus***
**(Clerck, 1757)**

Yn byw mewn corsydd asidig, yn agos at ddŵr agored yn aml iawn.



***Araneus marmoreus***
**Clerck, 1757**

Yn creu gwe gylch mewn mieri (hydref).

**Rhowch wybod os byddwch chi wedi gweld y rhain, i:**

**Richard Gallon**
Swyddog Data Biolegol/Biological Data Officer
richard.gallon@cofnod.org.uk
Intec, Ffordd y Parc,
Parc Menai,
Bangor, Gwynedd.
LL57 4FG
(01248) 672603
www.cofnod.org.uk